# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd H.M. Payne (Is-gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, E.J. Goodjohn, E. Goodjohn, S.J. Haines, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson a N.B. Marshallsea.

Aelodau Cyfetholedig: M. Werrett (Yr Eglwys yng Nghymru), L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd) a G. Scott (Addysg Gymraeg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a Dr. I.J. Johnson.

## 367 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 368 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr W. Gilligan a W.A. Hennessy; Dr. M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), E. Woodfield a I. Da Silva (Cyngor Ieuenctid y Fro).

## 369 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar gynnwys yr ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd ond oherwydd materion technegol nad oedd wedi eu derbyn gan y swyddogion: L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Cynradd).

## 370 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

371 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2023-24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2024 fel y cynhwyswyd o fewn yr agenda.

Tynnodd y Cynghorydd Asbrey sylw at rai problemau a oedd yn cael eu profi gan deuluoedd a oedd yn byw yn Ninas Powys a’r ffaith nad oedd cyllideb gan y Cyngor i gludo plant i Ysgol Pen y Garth. Felly, roedd nifer o rieni wedi anfon eu plant i ysgolion Saesneg. Mewn ymateb, a chyda chaniatâd i siarad, dywedodd y Cynghorydd Birch (yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) y byddai'n mynd i'r afael â'r mater gyda'r Tîm Trafnidiaeth Ysgol.

Gwnaeth G. Scott (sylwedydd nad oedd yn pleidleisio – Addysg Gymraeg) sylw ar nifer staff Bro Morgannwg nad oeddent yn cofnodi lefel eu dealltwriaeth o'r Gymraeg. Dim ond traean o staff y Cyngor yr oedd y data yn yr adroddiad yn ei gynnwys. Dywedodd Mr Scott, o fewn ei rôl i Fwrdd Iechyd Gwent, eu bod wedi llwyddo i wella lefel y wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi gan staff ac y byddai'n barod i gynnig cymorth i Gyngor Bro Morgannwg.

Awgrymodd y Cynghorydd Hodges y dylai Cyngor Bro Morgannwg wneud cais i gynnal Eisteddfod yr Urdd 2029 yn Y Barri.

Dywedodd y Cynghorydd Payne fod problem hysbys ynghylch recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg a gofynnodd beth allai'r Cyngor ei wneud i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i recriwtio a chadw staff addysgu a staff eraill. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg yn her hysbys ac un o'r ffyrdd yr oedd y Cyngor yn ceisio gwella'r sefyllfa oedd drwy ddefnyddio cynllun graddedigion ar gyfer y disgyblion hynny a oedd wedi mynychu Ysgol Bro Morgannwg. Roedd hynny'n rhoi cyfleoedd iddynt ddod yn ôl i weithio i Gyngor Bro Morgannwg. Er mwyn cefnogi'r fenter honno, roedd y Cyngor wedi gallu cael rhywfaint o arian grant gan Lywodraeth Cymru. Byddai cynnydd ar y fenter yn cael ei roi i'r Pwyllgor Craffu.

O ran recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg, tynnodd Mr Scott sylw at y ffaith bod ei sefydliad wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau lle'r oedd y fanyleb swydd yn nodi y byddai hyfforddiant Cymraeg am ddim yn cael ei roi. Ychwanegodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau ei bod yn bwysig sicrhau bod rheolwyr yn rhoi amser gwarchodedig i staff er mwyn iddynt allu cwblhau’r dysgu.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD –

(1) CYMERADWYO Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2023-24 (ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad) a'r Diweddariad ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad).

(2) Bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Bod y Cyngor yn ystyried cais i gynnal Eisteddfod yr Urdd 2029 yn y Barri.
- Bod y Cyngor yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i recriwtio a chadw staff addysgu ac eraill â sgiliau Cymraeg.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad atodol a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod Craffu.

372 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2023/2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 fel y cynhwyswyd o fewn yr agenda.

Gofynnodd y Cynghorydd Payne a oedd data ar effaith staff addysgu yn gweithredu mesurau diogelu, fel amser a gymerwyd oddi wrth weithgareddau ysgol eraill. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Diogelu y gellid ystyried astudiaeth amser a symud ar gyfer sampl o rai ysgolion. Roedd data ar bryderon a fynegwyd gan staff ar gael a gellid cyflwyno gwybodaeth ddienw pe bai cais amdani.

Tynnodd y Cynghorydd Campbell sylw at bwysigrwydd Llywodraethwyr Ysgol yn cwblhau'r modiwlau Diogelu perthnasol.

Gofynnodd C. Werrett (Aelod Cyfetholedig) a oedd unrhyw beth o fewn y Polisïau Diogelu ynghylch atal radicaleiddio. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Diogelu fod radicaleiddio yn elfen allweddol o hyfforddiant staff gyda'r holl staff ysgol yn gorfod cwblhau hyfforddiant PREVENT y Swyddfa Gartref bob tair blynedd. Yn ogystal, byddai aelodau o dîm arwain ysgol hefyd yn cwblhau hyfforddiant WRAP a byddai gan bob ysgol weithdrefnau ar waith ar gyfer achosion o radicaleiddio. Yn ogystal, byddai'r Swyddog Diogelu hefyd yn mynychu sesiynau gwerthuso ysgolion fel rhan o baratoi ar gyfer ymweliadau Estyn i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ysgolion yn gadarn o ran sut roedd ysgolion yn atal staff a disgyblion rhag cael eu denu i eithafiaeth.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r gwaith sydd wedi ei wneud i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

(2) BOD y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cynnwys mwy o ddata ar effaith gweithredu mesurau diogelu gan staff addysgu, megis yr amser a gymerir i ffwrdd o waith ysgol arall er mwyn gwneud hyn.
- Pwysigrwydd bod Llywodraethwyr Ysgol yn cwblhau'r modiwlau diogelu perthnasol.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad atodol a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod Craffu.

373 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/24 (CYF) –

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Medi 2024 fel y cynhwyswyd o fewn yr agenda.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S. Haines at broblemau mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Pencoedtre a dywedodd y dylai hynny fod wedi adlewyrchu ar yr asesiadau yn adroddiad y Cyngor. Yn ogystal, cyfeiriodd y Cynghorydd Haines at lawer o ysgolion a oedd yn rhedeg diffyg cyllidebol ac felly roedd angen rhestru'r ddau faes hynny yn yr adroddiad a hefyd dynnu sylw atynt ar gyfer ffocws a monitro parhaus. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod diffygion cyllidebol ysgolion wedi cael eu cydnabod dan heriau ariannol a'r defnydd o adnoddau'r Cyngor, a nodwyd bod hynny'n bwysau parhaus. Dywedodd y Cynghorydd R. Birch (yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), gyda chaniatâd i siarad, ei bod wedi bod mewn cyfarfod ag Aelodau Cabinet dros Addysg cynghorau eraill, ac roedd pob Cyngor yng Nghymru yn yr un sefyllfa gydag ysgolion â diffygion cyllidebol. Roedd y rhesymau dros y diffygion yn amrywiol, ond elfen bwysig oedd cynnydd mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Dywedodd y Cynghorydd N. Marshallsea fod adran o fewn yr Hunanasesiad Blynyddol mewn perthynas â ble roedd y Cyngor yn gwario ei arian. Dywedodd y Cynghorydd y dylid rhannu'r adran honno gydag aelodau'r cyhoedd er mwyn helpu pobl i ddeall ble roedd eu harian Treth Gyngor yn mynd. Cytunodd y Cyfarwyddwr a dywedodd fod hynny'n rhywbeth i'w drafod gyda Rheolwr Cyfathrebu'r Cyngor.

Tynnodd y Cynghorydd H. Payne sylw at y nifer o bethau cadarnhaol yn adroddiad Hunanasesiad y Cyngor ond cyfeiriodd hefyd at bwysau sylweddol mewn Diogelu ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd hefyd yn bwysig i'r Cyngor roi gwybod i aelodau'r cyhoedd am y gwaith da yr oedd y Cyngor wedi bod yn ei wneud. Roedd y gwaith da yn cynnwys rhai adroddiadau arolygu da iawn yn ogystal â'r gwaith ychwanegol yr oedd athrawon yn ei wneud y tu allan i amser ysgol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Amcan Lles 2, pwynt 4, mewn perthynas â chynyddu cynhwysiant a gwella presenoldeb a thynnodd sylw at bwysigrwydd gwella cyfradd

presenoldeb ysgolion. Mewn ymateb, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at waith a wnaed gan y Gwasanaeth Cynhwysiant i gefnogi plant sydd â phresenoldeb isel.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD – Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor at y Cabinet i'w hystyried, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau ffocws parhaus ar fonitro a mynd i'r afael â diffygion ysgolion a materion eraill sy'n effeithio ar staff addysgu.
- Pwysigrwydd amlygu i drigolion, trwy ddefnyddio cyfathrebiadau cyhoeddus, y data ar wariant, ac ati sydd yn y ffeithluniau a ddefnyddiwyd yn yr adran 'Ar beth y gwariwyd ein cyllideb' yn yr Hunanasesiad Blynyddol.
- Pwysigrwydd amlygu'r hyn yr oedd y Cyngor wedi'i gyflawni mewn meysydd megis adroddiadau arolygu ysgolion a pha waith ychwanegol yr oedd athrawon yn ei wneud y tu allan i amser ysgol. Yn ogystal â gwariant ar addysg, roedd yn bwysig dangos yr hyn yr oedd staff addysgu yn ei wneud o ran gwaith a dylid cyfuno'r manylion hyn.
- Pwysigrwydd parhaus gwella ffigurau presenoldeb ysgol.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod Craffu.

374 CAU CYFRIFON 2023/24 (CDS) –

Wynebodd y Cyngor bwysau refeniw sylweddol yn ystod 2023/24, roedd pwysau penodol o ran pwysau chwyddiant, yn enwedig o ran contractau a phwysau cyflog (a oedd yn adlewyrchu costau byw, pwysau'r farchnad ac ymrwymiad y Cyngor i dalu'r cyflog byw gwirioneddol).

Parhaodd y Cyngor i brofi pwysau galw sylweddol i gefnogi'r Gwasanaethau Plant, Digartrefedd a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod 2023-24.

Roedd sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn yn un adennill costau ar ôl trosglwyddiadau net o £34.235m, gan gynnwys £417k a drosglwyddwyd o Gronfa'r Cyngor, £12.961m o'r Cyfrif Refeniw Tai, £11.785m a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn penodol o refeniw a £12.078m a drosglwyddwyd o gronfeydd wrth gefn penodol i ddarparu cyllid untro ar gyfer prosiectau a gorwariant, a £8.779m a dynnwyd i lawr o gronfeydd wrth gefn i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf ac ar gyfer dadleoli a oedd yn ofynnol gan grantiau cyfalaf. £11.106 oedd gan Gronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2024.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u gosod ar gyfer 2023/24 ac roedd hyn yn cynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628m o arbedion corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn yr Atodiad, ac, er bod gwasanaethau wedi lliniaru rhywfaint o arbedion yn ystod y flwyddyn yn 2023/24, byddai'r arbedion hyn yn cael eu hadolygu yn 2024/25 wrth i

wasanaethau symud i nodi’r rheiny a oedd ar sail fwy cynaliadwy dros y tymor canolig.

Ar ôl ystyried symudiadau Cyfarwyddiaeth i ac o gronfeydd wrth gefn, dangosodd yr alldro refeniw warged o £2.080m y cynigiwyd ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio fel a ganlyn:

- £2m - Sefydlu cronfa wrth gefn newydd i wrthbwyso diffygion addysg yn 2024/25 dros dro tra bod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion ar sefydlu dull cydlynol o fynd i'r afael â diffygion mewn ysgolion;
- Roedd y balans o £80k wedi’i drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Rhagwelwyd y byddai’r Cyfrif Refeniw Tai yn tynnu ychydig llai i lawr o’r gronfa wrth gefn wedi’i chlustnodi o £12.961m i leihau lefel ei gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i £3.525m, y credwyd ei bod yn rhesymol yng nghyd-destun y pwysau yn y gwasanaeth yn 2024/25.

Gostyngodd lefel y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yn ystod y flwyddyn yn llai na'r hyn a ragwelwyd ond roedd rhai o'r ymrwymiadau hyn wedi llithro i 2024/25 yn unol â llithriad Gwariant Cyfalaf. Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ailddyrannu cronfeydd wrth gefn arall yn ystod y flwyddyn, fel yr amlinellwyd yng nghynigion cyllideb 2024/25, ac adlewyrchwyd hyn yn y sefyllfa alldro.

Gofynnodd y Cynghorydd Haines am restr o'r ysgolion hynny a oedd â diffyg cyllidebol ac a oedd yr ysgolion hynny a oedd yn gwneud yn dda yn rhannu arfer gorau gydag ysgolion eraill. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Cymorth Cyllid fod rhestr o falansau ysgolion wedi'i chynnwys yn yr Atodiad, a byddai sylwadau ynghylch arfer gorau yn cael eu dychwelyd i'r gwasanaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Payne at y cynnydd yn nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol a gofynnodd beth oedd yr amrywiad cyffredinol yn y gyllideb. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Cymorth Cyllid y byddai gwybodaeth yn cael ei hanfon drwy e-bost.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) NODI dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor fel y nodir isod:

- Trosglwyddiad o £2m i'r gronfa wrth gefn newydd i wrthbwyso diffygion ysgolion ar sail dros dro yn 2024/25.
- £80k i Gronfa'r Cyngor i wrthbwyso pwysau cyffredinol.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad hysbysu'r Aelodau o'r alldro a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir.

(2) Hysbysu'r Aelodau o ddyraniad gwarged 2023/24 i gefnogi pwysau allweddol a nodwyd gan y Cyngor.

375 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2024/25 (CDS) –

Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu galw heriol a phwysau chwyddiant gan barhau â'r pwysau gwasanaeth allweddol a welwyd yn sefyllfa alldro 2023/24 yn 2024/25. Cafodd y pwysau cost a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb 2024/25 eu haddasu i adlewyrchu'r cyllid a oedd ar gael, ac felly nid oeddent yn darparu cyllid llawn ar gyfer pwysau, ac roedd y pwysau hyn wedi parhau i gynyddu yn chwarter cyntaf 2024/25. Parhaodd cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn faes o bwysau sylweddol o fewn Dysgu a Sgiliau gyda phwysau cyfatebol ar gostau trafnidiaeth ysgol ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth ADY. Ar draws y gwasanaethau roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi yng nghyswllt cyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac o ran y bwlch cyllido rhwng y dyfarniad cyflog ar gyfer 2024/25 a'r dyfarniad cyflog tebygol ar gyfer 2024/25. Dim ond chwyddiant cytundebol cyfyngedig iawn a ddyrannodd y Cyngor fel rhan o gyllideb 2024/25 a dim chwyddiant cyffredinol ers rhai blynyddoedd a byddai hyn yn cael effaith gyffredinol ar wydnwch y gyllideb refeniw. Byddai'r oedi ar weithredu arbedion hefyd yn effeithio ar alldro 2024/25 ar draws gwasanaethau.

Roedd defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn oddeutu £13.629m, roedd gan y Cyngor ffrydiau gwaith amrywiol yn mynd rhagddynt i liniaru'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a lleihau gorwariant yn ystod y flwyddyn.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u gosod ar gyfer 2024/25, gan gynnwys targed o £7.676m o arbedion Corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn yr Atodiad. Parhaodd y Cyngor hefyd i fonitro’r gwaith o gyflawni arbedion 2023/24 heb eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd y Cynghorydd Payne ei bod yn falch y byddai’r defnydd o staff asiantaeth o fewn ysgolion yn cael ei ymchwilio ymhellach.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at broblemau gyda thrafnidiaeth ysgol a gofynnodd a oedd unrhyw debygolrwydd y byddai'r ddarpariaeth o ran trafnidiaeth ysgol i rieni yn cael ei lleihau. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod heriau mewn perthynas â nifer y gyrwyr a'r gweithredwyr a gyda chostau cynyddol contractau trafnidiaeth. Roedd y Cyngor yn edrych ar newidiadau i amseroedd gollwng er mwyn sicrhau cyfleoedd o ran arbedion maint ond roedd maes trafnidiaeth ysgol yn risg a amlygwyd.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2024/25 yr Awdurdod.

(2) NODI'r trosglwyddiadau y gofynnwyd amdanynt fel rhan o'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

376 CAU CYFRIFON CYFALAF 2023/24 (CDS) –

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ar gau'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Dangoswyd manylion fesul cynllun, a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu, yn Atodiad 1.

Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i 31 Mawrth 2024, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Roedd angen ychwanegu nifer o gynlluniau gwerth cyfanswm £5.395m yn hwyr yn y Rhaglen a nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyfredol o £103.829m a gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £88.620m.

Er gwaethaf y ffaith bod cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau parhaus oherwydd nifer o faterion, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau a phrinder adnoddau, braf oedd nodi bod Rhaglen Gyfalaf 2023/24 ag alldro o £88.620m a bod 85.35% o'r rhaglen wedi'i wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Oherwydd yr ymroddiad, yr ymrwymiad a'r gwaith caled ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau, nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyfredol o £103.829m a llithriad net o £15.013m a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan Bwerau Brys i Raglen Gyfalaf 2024/25.

I'r Pwyllgor Craffu, roedd y sefyllfa ynghylch y gyllideb yn amrywiad o £3.664m yn erbyn Rhaglen wedi'i haddasu o £28.116m. Cofnodwyd mai £24.452m oedd yr alldro ar gyfer y Pwyllgor Craffu a gofynnwyd am lithriad o £3.649m.

Wedi ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

(2) NODI'r cyllidebau cynllun ychwanegol a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) NODI'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo yn y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023 i 31 Mawrth, 2024, fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

(4) NODI'r Pŵer Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad, fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

377 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN, 2024 (CDS) –

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2024. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1.

Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2024 i 30 Mehefin 2024, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2024/25 a rhai’r blynyddoedd i ddod.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £139.927m.

Roedd yn bwysig nodi bod llawer o feysydd yn parhau i brofi costau cynyddol ynglŷn â gweithredu cynlluniau. Roedd tendrau'n cael eu derbyn dros y cyllidebau cyfredol a ddyrannwyd ac roedd swyddogion yn adrodd am y gofyniad i aildrafod tendrau a gyflwynwyd.

Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a rhagwelwyd y byddai gofyn am geisiadau llithriad mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda rheolwyr a noddwyr prosiectau i sicrhau gwerth am arian a bod yr holl gyfleoedd cyllido posibl yn cael eu nodi a'u harchwilio'n llawn.

Wedi ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2024/25 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, yn Atodiad 1 i'r adroddiad sydd ynghlwm.

(2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraff 2.6 ac y manylir arno yn yr adroddiad ym mharagraffau 2.21, 2.22 a 2.23.

(3) BOD y defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, y manylir arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad. cael ei nodi.

(4) Y DYLID nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2024/25 a Rhaglen Gyfalaf y dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraffau 2.4 i 2.5 ac y manylir arnynt yng nghorff yr adroddiad o baragraff 2.13.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

378 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2024/25 (CDS) –

Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 1 (Ch1) (1 Ebrill i 30 Mehefin 2024) tuag at gyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol (2024/25) yn unol ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Oherwydd yr heriau capasiti cyfredol o fewn y Tîm Mewnwelediad a Strategaeth Gorfforaethol, diwygiwyd fformat Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol y chwarter hwn (Ch1) dros dro, er mwyn galluogi'r Cyngor i barhau i roi trosolwg i Aelodau Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynodeb o'r cynnydd yn erbyn ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/25 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch1 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Wedi ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd N. Marshallsea pam fod y gyfradd bresenoldeb yn Ysgol Llanilltud Fawr yn isel, o ystyried bod problemau ym Mhencoedtre yn hysbys. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Bartner Perfformiad Corfforaethol, fod presenoldeb yn Llanilltud Fawr ar radar Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y Pwyllgor Craffu eisoes wedi gofyn am adroddiad ynghylch presenoldeb mewn ysgolion, ac y byddai'r adroddiad hwnnw'n manylu ar feysydd penodol o her, felly roedd ymdrechion i sicrhau bod disgyblion cynradd ac uwchradd yn parhau i gael eu monitro'n effeithiol.

Dywedodd y Cynghorydd S. Haines ei fod yn teimlo bod angen i'r adroddiad gynnwys manylion ynghylch gwneud ysgolion yn lle gweithio diogel i athrawon, yn enwedig yn dilyn y problemau a oedd wedi bod yn digwydd ym Mhencoedtre. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn datblygu cyfle i'r staff a'r disgyblion allu adrodd unrhyw bryderon. Byddai'r pryderon hynny'n cael eu monitro'n ofalus, a bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel awdurdod lleol i nodi unrhyw dueddiadau cyn iddynt ddod yn broblemau. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr y Pwyllgor fod ymdrech ar y cyd i gefnogi lles staff a thynnodd sylw at ddatblygiad strategaeth y Cyngor i gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion ar gyfer pob ysgol ledled y Fro gan

gynnwys staff.  Roedd mesurau ar waith i hyrwyddo'r strategaeth ac i gyfeirio i ddarparwyr cymorth allanol ar ben y cymorth a oedd yn cael ei roi'n fewnol.

Gofynnodd y Cynghorydd E.J. Goodjohn a oedd Pennaeth Anghenion Arbennig wedi'i benodi.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi bod yn gynharach yr wythnos honno.

Gofynnodd y Cynghorydd H. Payne a fu cynnydd gyda'r tendr ar gyfer rhaglen adeiladu St. Richard Gwyn.  Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod cynnydd da wedi'i wneud, a bod adroddiad ar hynny i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 1 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet, i'w hystyried, gan gynnwys:

- Bod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau monitro effeithiol parhaus o bresenoldeb disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd, fel y cyfeirir ato o dan 'Meysydd o Bryder sy'n Dod i'r Amlwg' o dan Amcan 2, yn Atodiad A i'r adroddiad.
- Y dylai Adroddiad Monitro'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fanylu ar yr ymdrechion i sicrhau bod ysgolion yn fan gweithio diogel i athrawon a'r gefnogaeth a ddarperir ar eu cyfer.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er ystyriaeth y Cabinet.